

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 9fed o Ragfyr 2020 am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Robin Hughes, Sion Alun Roberts, Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is- Gadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriadau gan y Cadeirydd y Cyng Berwyn Hughes, Berwyn Harding, Geraint Morgans ac Arfon Hughes.

Nodyn e-bost gan y Cadeirydd Berwyn Hughes oedd yn nodi ei ymddiheuriad, tra hefyd yn rhestru nifer o faterion i'w roi gerbron – byddent yn cael eu trafod ar ddiwedd y cyfarfod. Un pwynt oedd llongyfarch Elfyn Evans y gyrrwr ralio ar ei gamp, roedd yn glod i'r ardal ac yn rhoi Dinas Mawddwy ar y map. Byddai'r Clerc yn danfon llythyr ato ar ran y Cyngor Cymuned.

2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar y 14eg o Hydref yn y Neuadd yn Dinas Mawddwy fel rhai cywir ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng. Catrin Jones.

3. Materion yn codi .

- a. **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd sianeli a ffosydd wedi eu hagor ar Fwlch y Groes, ac roedd gobaith na fyddai problemau efo dwr i'r dyfodol. Yn dilyn adroddiadau i law gan y Cynghorwyr, cadarnhawyd fod pob bin halen yn yr ardal wedi ei lenwi erbyn hyn. Cadarnhawyd fod pob dim yn iawn i gael dau fin halen o'r newydd, sef ar y Cytir (uwchlaw Ty gwyn) ac hefyd ar rhiw Abercowarch. Byddai'r gost yn £396 yr un, wedi eu gosod ac yn cynnwys yr halen. Cadarnhaodd y Cyng Hedd Pugh y byddai ef yn cyfarfod Sion Wilkes o Gyngor Gwynedd er mwyn cytuno a safle addas i'w gosod.
- b. **Mynwentydd yr ardal** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Clerc a'r Cyng John P Jones wedi ymweld a mynwent Dinas, ac roedd y Clerc wedi tynnu lluniau o'r cerrig oedd wedi gwyro ychydig, er nad oedd hyn yn golygu eu bod yn rhydd neu yn beryglys. Hefyd roedd y Cyng. Robin Hughes wedi ymweld a mynwent Eglwys Mallwyd, ac wedi tynnu llun un garreg a oedd yn gwyro. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Rhys Bleddyn, ac roedd ef wedi ymweld a'r safleoedd dan sylw yn y ddwy fynwent. Adroddwyd e-bost gan Rhys Bleddyn dyddiedig 1af Rhagfyr yn awgrymu (os nad oedd modd cysylltu a'r teuluoedd) y dylid rhoi y cerrig yma ar y ddaear i fod yn sicr o ran diogelwch. Dywedodd hefyd y gallai roi prisiad am y gwaith os oedd y Cyngor yn dymuno. Rhestrwyd y manylion o'r cofebau i'r Cynghorwyr, a gwelwyd y dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu a'r teuluoedd yn y lle cyntaf, ac adrodd erbyn y cyfarfod nesaf. Wedyn gallem fel Cyngor ofyn i Rhys am bris. Tra'n trafod hyn, adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad efo Tegid Humphreys Cwmlinau eto ynglyn a'r angen i dorri y sientin tu cefn i fynwent Llanymawddwy, ac y byddai yn mynd ati mor fuan a phosib. Hefyd, byddai yn danfon ei anfoneb am hyn a'r gwaith torri gwair erbyn y cyfarfod nesaf.

- c. **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – adroddwyd nad oedd dim datblygiadau ymhellach gan y Gyfreithwraig Annest Smith.
- d. **Eglwys Llanymawddwy** – nodwyd yr ohebiaeth diweddaraf, ac adroddwyd yn llawn am gyfarfod ar y safle rhwng Rhiannon Thomas o'r Eglwys yng Nghymru, Alun Charles, Pensaer ar ran yr Eglwys a'r Cynghorwyr Hedd Pugh a Sion Alun Roberts ynghyd a'r Clerc ar yr 2ail o Ragfyr. Darllenwyd yn llawn e-bost Alun Charles dyddiedig 7fed Rhagfyr. Atgoffwyd pawb fod bwriad gan yr Eglwys i fynd ymlaen i werthu yr eiddo, ond yn gyntaf i gael caniatad cynllunio. Trafodwyd yn faith, a rhannwyd y drafodaeth fel a ganlyn;
- (i) **Bocsus tylluanod** – bu trafodaeth am eu lleoliad. Roedd yr Eglwys yn ymholi am y coed ynn fel posibilwydd, ac a oedd ar dir y Rheithordy. Os nad oedd hyn yn bosib, penderfynwyd y byddem yn hapus i'w lleoli ar y ddwy goeden ywen, (posib y byddai angen torri canghennau). Yr opsiwn olaf fyddai codi dau bostyn ar gyfer hyn, ond roedd gobaith na fyddai hyn yn gorfod ei wneud.
- (ii) **Peipen carthffosiaeth i'r caeau o dan y ffordd** – dymuniad yr Eglwys oedd cael yr hawl (easement) i osod y beipen ar dir y fynwent ac arwain i'r caeau islaw. Eglurwyd na fyddai yn bosib rhoi peipen ar y llwybr i'r Eglwys, gan fod carreg fedd yno. Yr opsiwn felly iddynt oedd gosod y beipen ar y llwybr troed yn y fynwent, yna disgyn a chroesi'r ffordd. Drwy wneud hyn ni fyddai yna unrhyw amharu ar y cerrig beddi. Cytunwyd mewn egwyddor efo hyn gan y Cynghorwyr, ond pwysleisiwyd fod rhaid cael barn gyfreithiol cyn y gellid cytuno yn llawn.
- (iii) **Mynegwyd barn glir gan y Cynghorwyr nad oeddynt yn gyfforddus** i fynd ymlaen i roi sel bendith ar y cyfan o'r cynlluniau, heb i'r Eglwys yng Nghymru yn gyntaf ymgynghori gyda cyn-aelodau'r Eglwys a theluoedd sydd ag anwyliaid yn y fynwent. Roedd yn bwysig i bawb gael gwybod am y bwriad i greu llety gwyliau yno. Yn ystod y drafodaeth ar y diwrnod, roeddynt wedi gaddo hyn, ond nid oedd son yn yr e-bost diweddaraf. Penderfynwyd fod rhaid iddynt wneud hyn cyn cael gwybod am ein penderfyniadau ni fel Cyngor Cymuned.
- (iv) **Cynnig yr Allor (chancel) i'r gymuned** - Roedd yr e-bost yn cadarnhau y drafodaeth ar yr 2ail o Ragfyr, sef eu bod yn cynnig rhannu yr allor fel y gallai'r gymuned ei defnyddio os oeddynt yn dymuno. Golygai hyn osod wal derfyn, a chreu drws allanol fel mynedfa i'r allor. Byddent yn gwneud gwaith ar y to, tynnu yr iddew, gwneud y cais cynllunio a chaniatad adeilad rhestredig i hyn oll. Y bwriad fyddai i'r Eglwys wedyn drosglwyddo perchnogaeth yr allor i'r gymuned/Cyngor Cymuned, ond byddai rhaid i'r gymuned/Cyngor Cymuned ariannu y gwaith o addurno'r allor a chreu y llwybr i'r fynedfa newydd. Roeddynt yn cynnig £500 tuag at y costau cyfreithiol.
- (v) **Dau opsiwn arall a amlinellwyd yn e-bost Alun Charles fyddai** – Cyngor Cymuned brynu Eglwys St Tydecho gan yr Eglwys yng Nghymru, neu os nad oedd y gymuned/Cyngor Cymuned eisiau yr allor i'w defnydd, byddent yn falch o gefnogaeth y Cyngor Cymuned i gais cynllunio fyddai yn trosi y cyfan o'r Eglwys i lety gwyliau.
- Trafodwyd yn faith, ac ystyriwyd na fyddai dim defnydd i'r Cyngor Cymuned gymryd trosodd yr allor, nid oedd o unrhyw fantais, a gallai hyn fod yn gostau i'r dyfodol, a bod rhaid ystyried yn ofalus. Ar gynnig Cyng Sion Alun Roberts a'i eilio gan Cyng Catrin Jones, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr, penderfynwyd peidio cymryd y cynnig o'r allor gan y Cyngor Cymuned, ond pwysleisiwyd nad oedd hyn yn eu rhwystro rhag ei gynnig i unrhyw gorff neu fudiad arall o fewn y gymuned. Hefyd nid oedd unrhyw opsiwn arall uchod yn

ymarferol yng ngolwg y Cyngor Cymuned. Pwysleisiwyd hefyd, os oedd yr Eglwys yn cynnig yr allor i gorff neu fudiad arall, dylent bwysleisio fod rhaid cadw mewn cyswllt agos a'r Cyngor Cymuned oherwydd perchnogaeth a rheolaeth y fynwent.

Nodwyd hefyd nad oedd cyfraniad o £500 tuag at y costau cyfreithiol yn ddigonol, ac y dylai'r Eglwys dalu y costau yn llawn.

I symud ymlaen, byddai'r Clerc yn gohebu gyda'r Eglwys, a byddai rhaid trafod ymhellach y tro nesaf.

- e. **Arolwg safleoedd Canclwm Siapan** – adroddwyd fod e-bost gan Rhys Owen o'r Parc Cenedlaethol dyddiedig 8fed Rhagfyr yn dweud nad oedd y wybodaeth ar gael hyd yma gan fod y staff ynghlwm wrth waith brys arall a oedd gerbron ganddynt.
- f. **Enwau lleoedd** – adroddwyd y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, ac atgoffodd y Clerc ei fod wedi canfod adran yn Cyngor Gwynedd oedd yn delio efo hyn, ac roedd wedi siarad efo Gwyneth Lewis. Byddai hi yn fodlon ysgrifennu yn uniongyrchol ar berchennog anheddau. Adroddwyd am Firecat (Camlan) Long Meadow (Dol-hir) a Siskin Cottage yn Minllyn. Gwelwyd fod rhaid gwneud rhywbeth am y sefyllfa, ac ar gynnig Cyng. Catrin Jones a'i eilio gan Idris Jones, gwelwyd y dylid ystyried yr enwau a oedd wedi eu newid ers y 10 mlynedd diwethaf. Addawodd y Cyngorwyr adrodd ymhellach i'r Clerc o fewn y pythefnos nesaf gyda unrhyw enwau ychwanegol i'r rhoi ar y rhestr i Gyngor Gwynedd.
- g. **Coeden Nadolig** – Yn y lle cyntaf, diolchwyd yn fawr iawn i Geraint Evans, Gwanas am ei rodd o'r goeden nadolig unwaith eto. Byddai'r Clerc yn danfon nodyn ato, a'i ddymuniad oedd fod y Cyngor Cymuned yn cyfrannu £50 i Sioe Dinas yn ol yr arfer. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb a oedd wedi cynorthwyo eleni, ac roedd balchder fod y goeden yn edrych yn wych o flaen y neuadd bentref. Diolchwyd yn arbennig i'r Cyngorwyr Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Geraint Morgans, a Sion Alun Roberts am wneud y twll pwrpasol i'r goeden am y tro cyntaf eleni, ac i bawb oedd wedi ei haddurno a oedd hefyd yn cynnwys Catrin ac Andrew ac Hefin Davies.

4.Materion Cynllunio.

Roedd tri cais wedi bod dan ystyriaeth gan y Cyngorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/74/L319 - *Newid defnydd o gapel a festri l weithdy a thy un llofft ynghyd a newidiadau allanol man yn Capel Bethania Aberangell.*

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais, gan ei fod yn dda gweld defnydd yn cael ei wneud o'r lle, ac nad oedd y newidiadau yn effeithio ar y pentref.

NP5/74/478A – *codi mast telathrebu 12.5m o uchder ynghyd ag offer a compownd cysylltiedig - Tir fferm Coed Cae Llanymawddwy*

NP5/74/321C - *Hysbysiad o flaen llaw o dan ran 24 o'r ddeddf Cynllunio gwlad a thref(Datblygiadau cyffredinol a ganiatier) Gorchymyn 1995 fel y'l diwygiwyd l uwchraddio antenna ar y mast presennol 15m o uchder ynghyd a gwaith cysylltiedig ategol yn Penygraig, Cwm Cewydd*

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad l'r ddau gais uchod, a gwnaethpwyd y pwynt cyffredinol y dylid eu gwneud yn agored l roi signal ffon l'r ardal, ac l beidio eu cadw l wasanaethau brys yn unig.

Roedd un cais i'w ystyried, sef ;

NP5/ 74/333H – gosod cynhwysydd wedi ei gladio a phren l'w ddefnyddio fel storfa a swyddfa yn lle'r sied fetel a gymeradwywyd fel rhan o ganiatad Cynllunio NP5/74/333G dyddiedig 26/06/2019 yn Canolfan Arddio a Siop fferm Camlan.

Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais gan y byddai yn welliant yn weledol. Fodd bynnag, gan mai yn gynharach yn y dydd y derbyniwyd y cais, ac nad oedd amser digonol wedi ei roi l Gynghorwyr edrych arno yn fanwl, byddai y Clerc yn aros am bythefnos cyn danfon sylwadau.

5. Materion Cyllid.

Cytunwyd i dalu dau anfoneb oedd i law, sef;

Cyngor Gwynedd – cost gwasanaeth archwilio mewnol - £186.00

Hefin Davies, torri gwair mynwent Dinas Mawddwy - £541.19 (a oedd yn cynnwys £141.19 o yswiriant)

Torch Sul y Cofio - £20 (yn daladwy l'r Clerc)

Sioe Dinas Mawddwy - £50 (sef dymuniad Geraint Evans Gwanas am ei rodd o'r Goeden Nadolig l'r Cyngor eto eleni)

Adolygwyd a diweddarwyd pawb gyda sefyllfa ariannol y Cyngor, a thrafodwyd yn fanwl sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn 2020-21 ac hefyd y rhagolygon a chyllideb ar gyfer 2021-22. Roedd y balansau fel a ganlyn;
Cyfri cyffredol - £8,505.96
Cyfri Claddu - £3,306.43
Cyfri Cadw - £768.62

Rhestrwyd y taliadau oedd wedi eu gwneud yn y flwyddyn ariannol hyd yma, y taliadau oedd wedi eu cymeradwyo, a'r gwariant /gofynion tebygol ar gyfer gweddill y flwyddyn. Amlinellwyd hefyd trefn taliadau y cyfrif claddu.

Atgoffwyd pawb hefyd fod gan Gynghorwyr hawl l lwfans o £150 l'w hawlio cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y Clerc yn danfon adroddiad am hyn l Lywodraeth Cymru yn flynyddol.

Trafodwyd yr angen i benderfynnu ar y **praesept ar gyfer 2021-22**, ac atgoffwyd pawb nad oedd y praesept wedi ei godi y llynedd. Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd – at gynnig Cyng Idris Jones a'l eilio gan Sion Alun Roberts, a gyda chefnogaeth unfrydol y cyfarfod - **ei godi o £8,820 l £9500**. (Roedd hyn yn gynydd o tua 7.5%).

6. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at gyfarfod **Un Llais Cymru Meirionnydd** a gynhaliwyd ar yr 2ail o Ragfyr, a derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Hedd Pugh. Cyfeiriwyd at Archwilwyr allanol o'r newydd o 2021 ymlaen, yr angen am hyfforddiant efo hyn, a'r angen i gael adroddiad am y flwyddyn yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned. Soniwyd hefyd fod mwy o gyfrifoldebau yn dod i gynghorau cymuned i'r dyfodol. Hefyd roedd awgrym wedi ei roi na ddylid cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb – hyn oedd y rheswm am e-bost y Clerc dyddiedig 3ydd Rhagfyr i'r Cynghorwyr – nid oedd neb wedi mynegi unrhyw bryder am y sefyllfa.
- b) Adroddwyd am yr **asesiad risc** a oedd wedi ei ddiweddarau gan y Clerc ar gyfer y Cyngor, ac wedi ei ddanfôn i bawb o'r Cynghorwyr drwy e-bost gan y Clerc dyddiedig 7fed Rhagfyr. Diolchwyd am y gwaith yma, ac ar gynnig Cyng Catrin Jones, a'i eilio gan Sion Alun Roberts, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr, penderfynwyd ei gymeradwyo ar gyfer Cyngor Mawddwy.
- c) Cyfeiriwyd at y **cod ymddygiad i Gynghorwyr Cymuned** a oedd wedi ei ddanfôn allan i'r holl Gynghorwyr drwy e-bost ar y 24ain o Dachwedd. Ar gynnig Cyng Catrin Jones a'i eilio gan John P Jones, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cynghorwyr, penderfynwyd i'w fabwysiadau yn ol yr arfer.
- d) Nodwyd wybodaeth am **Gyfarfod Blynyddol Ecodyfi 2020**, a oedd wedi ei ddanfôn allan i bawb drwy e-bost dyddiedig 24 Tachwedd. Nodwyd mai'r Cyng Arfon Hughes oedd cynrychiolydd y Cyngor ar Ecodyfi.
- e) Nodwyd ohebiaeth am **gyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru**, a oedd wedi ei ddanfôn allan i'r Cynghorwyr Cymuned drwy e-bost dyddiedig 29ain o Dachwedd. Hefyd nodwyd yr e-bost gan Un Llais Cymru yn nodi darllen hanfodol dyddiedig 9 fed Rhagfyr.
- f) Nodwyd e-bost gan Gyngor Powys ynglyn a **ymgyngoriad statudol ar gynigion i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth**. Roedd hyn yn rhedeg tan 26ain Ionawr 2021. Ar gynnig Catrin Jones a'i eilio gan Idris Jones, a chefnogaeth pawb oedd yn bresennol, roedd y Cynghorwyr o'r farn y dylai'r ysgol fod yn un cwbl ddwyieithog, ond gwelwyd fod angen mwy o amser i edrych ar y ddogfen, a gofynnwyd i'r Clerc ei danfôn allan i bawb am sylwadau - i'w dychwelyd o fewn 2/3 wythnos. Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng Hedd Pugh ar y mater yma.
- g) Nodwyd ymgyngoriad gan Gomisiynydd **Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** yn gofyn barn am blismona, y blaenoriaethau a'r praesept.
- h) Nodwyd e-bost gan Ecodyfi a Biosffer Dyfi yn hysbysu y Cyngor am lwyddiant gyda chais i gronfa Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru. Roedd yr e-bost yn cynnig cyfle i roi safleoedd cychwynol o'n hardal ar restr posib – er roedd yn nodi y byddai cyfleoedd pellach ar ol i'r prosiect gychwyn go iawn. Gofynnwyd i'r Clerc ei ddanfôn allan i'r Cynghorwyr.
- i) Nodwyd e-bost Cyngor Gwynedd ynglyn a ymgyrch recriwtio staff i'r maes gofal preswyl a gofal cartref.

7. Unrhyw Fater arall.(gan gynnwys materion a godwyd gan Berwyn Hughes mewn e-bost dyddiedig 4.12.20)

- a) Trafodwyd unwaith yn rhagor fod cwynion am ddeunydd ail-gylchu yn cael ei adael yn fler oddiamgylch biniau, ac yn aml roedd y caead y bin yn cael ei adael yn agored. Hefyd roedd yn amlwg fod deunydd ail-gylchu yn cwmpo o loriau. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at Steffan Jones am hyn, ond na chafwyd ymateb. Byddai rhaid dilyn hyn ymhellach.
- b) Nodwyd fod y ffosydd ar ben Bwlch Groes bellach yn ddwfn iawn, ac y byddai yn beth da iawn roi peipen a cherrig ynddynt. Nodwyd y dylid rhoi yr awgrym gerbron.

- c) Roedd tyllau yn y maes parcio yn y Dinas, ac roedd angen cyfeirio hyn at Adra.
- d) Nodwyd y gwyn am y nifer ffesantod fydd ar ol o achos y cyfnod clo, a'r ffaith na fydd cymaint o saethu. Nodwyd fodd bynnag fod yna saethu dyddiol ar hyn o bryd. Trafodwyd nad oedd hyn yn fater i'r Cyngor Cymuned, ond yn fater i unigolion a oedd am godi'r mater.
- e) Roedd y gwrych/sietin bob ochr i'r ffordd ger Penbont yn dal i dyfu i ganol y ffordd, ac angen ei dorri.
- f) Adroddwyd am faw cwn ar gae yr ysgol, a bod angen dod o hyd i bwy sy'n gyfrifol. Trafodwyd mai mater i'r ysgol oedd hyn, ac y dylent gwyno am y mater. Canmolwyd wardeiniaid cwn am ymateb yn gyflym i gwynion o'r fath.
- g) Roedd angen adrodd i Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd fod manau gwan ar ffordd Cywarch, sef ger Pen yr Erw. Roedd hyn yn wir hefyd am ffordd Llanymawddwy, sef rhwng mynedfa Brynuchaf a'r tro am Pennant.
- h) Adroddwyd fod y cais cynllunio 'Adeiladu ty, tir ger y fynwent, Dinas Mawddwy' a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi ei ystyried gan y Parc Cenedlaethol ar yr 21ain o Hydref, ond yn anffodus ni fu yn llwyddiannus.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 27ain Ionawr 2021 yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.45yh.